YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD


BRYN Y MÔR

Tymor yr Haf 2023

Dosbarth y Gragen

# Bant â ni i gynllunio!

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw ysgogi'r dysgwyr i ymholi a darganfod, i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, wrth ddysgu am gynefin y goedwig, yng Nghymru ac mewn ardal arall o'r byd. Bydd y dysgwyr yn dod i werthfawrogi a sylwi ar amrywiaeth pethau byw ac i ddatblygu corff o wybodaeth gan ddeall bod angen amodau penodol ar bethau byw i oroesi. Hyderwn y byddant yn medru cyfathrebu'n effeithiol gan fynegi eu syniadau trwy wahanol gyfryngau. Bwriadwn hefyd arwain y dysgwyr tuag at wneud penderfyniadau egwyddorol a gwybodus trwy ddeall effaith bodau dynol ar y byd naturiol gan ennyn ynddynt y teimlad o gyfrifoldeb ac ymrwymiad i sicrhau cynaladwyedd y blaned.




Sut mae anifeiliaid yn creu eu cynefin?

Elis

Dysgu am fathau o goed gwahanol.

Casi

Ble mae'r goedwig fwyaf yn y byd?

Gruff

Rydw i eisiau darllen cylchgronau natur.

Albee

Gawn ni fynd i'r goedwig?

Pawb!

Sut mae coedwigoedd yng Nghymru yn cymharu â rhai eraill yn y byd?

Pawb

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2023

## Dosbarth y Gragen

## Thema'r tymor yw: Beth sy'n cuddio'n y coed?

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

### Iechyd a Lles

- Datblygu sgiliau trin pêl.
- Datblygu sgiliau athletau a mwynhau paratoi tuag at y mabolgampau.
- Mwynhau gweithio fel aelod o dîm.
- Ystyried sut mae ein penderfyniadau yn cael effaith ar eraill nawr ac yn y dyfodol.
- Mwynhau gweithio yn yr awyr agored ac ystyried effaith hyn ar ein lles meddyliol.
- Trafod ein hemosiynau.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Dysgu caneuon newydd yn ymwneud a'r uned ddysgu a mwynhau eu perfformio.
- Astudio ac efelychu gwaith yr arlunydd Henri Rousseau.
- Mwynhau creu cuddfannau a chysgodfeydd ar gyfer creaduriaid y goedwig.

### Y Dyniaethau

- Dysgu am gynefin y goedwig yng Nghymru a beth sy'n byw ac yn tyfu yno,
- Cymharu nodweddion coedwig yng Nghymru a choedwig law.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith pobl ar y byd naturiol.
- Datblygu ymwybyddiaeth o sut allwn ofalu am bethau byw ac am yr amgylchedd.
- Deall beth yw 'Masnach Deg' a bod ein gweithredoedd yn cael effaith ar gymunedau ac ar yr amgylchedd.
- Gwerthfawrogi harddwch a rhyfeddod y byd naturiol a mwynhau darllen stori draddodiadol Fwslemaidd 'Yr Adar Bach.'

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener yn cael ei rannu trwy'r cyfrif Hwb ar J2pdf. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mwynhau arsylwi, ymholi a gofyn cwestiynau ynglŷn â chynefin y goedwig.
Deall y gall ein gweithredoedd gael effaith ar yr amgylchedd a phethau byw.
Mwynhau archwilio'r berthynas rhwng pethau byw, eu cynefinoedd a chylchoedd bywyd.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Creu cornel chwarae 'Cuddfan y Creaduriaid'
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys **cerdyn post, cyflwyno gwybodaeth ffeithiol ac ysgrifennu'n greadigol.**
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

### Ymweliadau/Profiadau

Gweithdy Coedwig Law yn yr ysgol 16/6/23
Ymweliad â Gardd Fotaneg Cymru – gweithdy 'Coetir rhyfeddol' – dyddiadau i'w cadarnhau
Ymweliadau â Pharc Singleton.

### Mathemateg a Rhifedd

Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu, lluosi a rhannu.

Chwarae gemau mathemateg pen.

Datblygu sgiliau mesur, dweud yr amser, defnyddio arian a datrys problemau.

Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau.

Datblygu sgiliau trin a chyflwyno data.